**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 30 Mai, 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Mehefin, 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 8 Mehefin, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 9 Mehefin, 2023.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Cadeirydd), Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts a Neville Evans

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Derek Owen

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Llinos Medi, Dafydd Rhys Thomas a Carwyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:30 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2023 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Mehefin, 2023 i Ionawr, 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Dewisol Costau Byw - Adroddiad Terfynol**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad sydd yn cadarnhau fod yr holl gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi sut y cafodd cyllid grant Llywodraeth Cymru o dan y cynllun ei wario a'r gefnogaeth a ddarparwyd.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Diddordebau personol yn unig gan y Cynghorwyr Neville Evans, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023 – 2028**<br>Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac** |

| | |
|---|---|
| | **Ôl-Ofal Ynys Môn 2023-28.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi ymrwymiad y Cyngor i blant Ynys Môn sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Defnydd o Arian Premiwm Ail Gartrefi**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cymeradwyo defnyddio arian Premiwm Ail Gartrefi ar gyfer y cynlluniau a amlygir ym mharagraff 10 yr adroddiad ar gyfer 2023/24 heblaw am y dyraniad o £300k ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio.**<br>• **Bod uchafswm y grant sydd ar gael i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn cael ei gynyddu i £25,000.**<br>• **Bod y dyraniad ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yn cael ei gytuno ar y cyd gan y Deilydd Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai a'r Deilydd Portffolio Cyllid unwaith y ceir dadansoddiad o'r £300k.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cytuno'r cynlluniau a'r gwariant ar gyfer 2023/24.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |